Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dweud eich dweud a'n helpu ni i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldebau

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn nodi ei flaenoriaethau o ran cydraddoldebau fel sail iddo ddatblygu ei Un Cynllun Cydraddoldebau a Chynllun Gweithredu. Bydd ein Cynllun Gweithredu'n canolbwyntio ar y meysydd cydraddoldeb canlynol: oedran, anabledd, rhyw /hunaniaeth o ran rhywedd, hil /ethnigrwydd, crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol.

Bydd y Cynllun Cydraddoldebau'n ymdrin â rôl Comisiwn y Cynulliad fel cyflogwr ac fel corff sy'n darparu gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad a sy'n rhyngweithio gyda phobl Cymru. Credwn mai un o'n blaenoriaethau yw gwella mynediad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i'r Cynulliad. Yn hyn o beth golygwn fynediad at wybodaeth, mynediad at drafodion y Cynulliad, mynediad at gyfleoedd posibl am gyflogaeth a mynediad i'n hadeiladau e.e Y Senedd.

Efallai bod gennych rai awgrymiadau sut y gellir gwella'ch mynediad chi.

Fe hoffem glywed eich barn am y materion canlynol a sut y gallent effeithio arnoch, eich teulu/ ffrindiau neu bobl yn eich cymuned. **Rhannwch y wybodaeth gyda theulu, ffrindiau ac unrhyw un arall y credwch all fod â diddordeb.**

Os hoffech e-bostio sylwadau'n uniongyrchol cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldebau os gwelwch yn dda equalities.team@wales.gsi.gov.uk neu, gallech ffonio Holly neu Ross (Tîm Cydraddoldebau) ar y rhif 029 2089 8204. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion gennych yw 29 Awst 2008.

Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda beth a deimlwch am y pwyntiau canlynol:

Mynediad at wybodaeth

- Ydych chi'n gwybod sut i ganfod gwybodaeth am Gynulliad Cenedlaethol Cymru?
- Ydych chi wedi defnyddio'n gwefan (www.cynulliadcymru.org)? Beth oeddech yn ei feddwl ohoni? Oedd hi'n hawdd ei defnyddio? Sut ellid gwella'r wefan?
- A ddylem ni gynhyrchu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg?
- Ydych chi'n gwybod sut i gysylltu ag Aelod Cynulliad?

Mynediad at gyfleoedd cyflogaeth

- Ydych chi'n gweld ein swyddi'n cael eu hysbysebu'n rheolaidd?
- Ble hoffech chi eu gweld yn cael eu hysbysebu?
- Beth fyddai'n eich annog chi i ymgeisio am swydd gyda ni?
- Beth fyddai'n eich atal rhag ymgeisio?

Mynediad at drafodion

- A wyddech ei bod yn bosibl gw ylio cyfarfodydd y Cynulliad? Ydych chi wedi gwneud hyn? Beth oeddech yn ei feddwl?
- Ydych chi'n gwybod y gellir gwylio cyfarfodydd y Cynulliad ar y rhyngrwyd? A wyddwch chi ble mae gwneud hyn?
- A wyddwch chi am system ddeisebu'r Cynulliad, ble gall aelodau'r cyhoedd ofyn i'r Cynulliad ystyried pwnc penodol?

Mynediad i'n hadeiladau

- Ydych chi wedi ymweld â'r Senedd ym Mae Caerdydd erioed? Gallwch gael taith o amgylch yr adeilad, gwylio'r digwyddiadau neu ddod i mewn am dro neu fynd i'r café.
- Os ydych wedi ymweld â'r Senedd, beth oeddech yn ei feddwl? Beth ellid ei wella?

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddwyn i'n sylw?

Gallwch archebu seddau ar gyfer cyfarfodydd Llawn neu gyfarfodydd Pwyllgor yn y Senedd, neu archebu taith trwy ffonio'r llinell archebu ar y rhif 0845 010 5500, ffôn testun 0845 010 5678

Neu e-bostio: archebu@cymru.gsi.gov.uk

Neu ysgrifennu at: Gwasanaeth Archebu'r Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Canolfan Ymwelwyr Gogledd Cymru, Parc y Tywysog, Lôn y Tywysog, Bae Colwyn, Conwy LL29 8PL